Gweiddi

# Oeddech chi'n gwybod?

1. Dyma fwy o ffeithiau i chi. Cysylltwch y ffeithiau â'r ap priodol.

Ei enw gwreiddiol oedd 'Picaboo'

Cafodd llun o Beyoncé'n feichiog ei hoffi 11,136,246 o weithiau – y llun mwyaf poblogaidd erioed.

## FACEBOOK

Enw gwreiddiol y botwm 'like' oedd 'awesome'

Mae 70% o'r defnyddwyr yn ferched.

## INSTAGRAM

O'r holl luniau o fwyd sy'n cael eu rhannu ar yr ap yma, lluniau o bizzas yw'r rhai mwyaf poblogaidd.

Mae'r gronfa ddata defnyddwyr yn tyfu 8 person pob eiliad.

## SNAPCHAT

Gan Selena Gomez y mae'r nifer fwyaf o ddilynwyr, gyda Cristiano Ronaldo'n ail.

Ers 2016, mae mwy na 7 biliwn o luniau a fideos yn cael eu rhannu pob dydd.

Fideos sy'n cael eu rhannu amlaf.

2. Un o brif nodweddion Twitter yw maint y negeseuon. Dim ond 140 o nodau cyfrifiadurol gallwch chi eu defnyddio i fynegi eich hun. Felly, darllenwch y paragraff yma sy'n hysbysebu digwyddiad a cheisiwch ei grynhoi i un neges trydar yn y blwch islaw - cofiwch fod un nod cyfrifiadurol yn cyfateb i un llythyren, bwlch, atalnod neu symbol cyfrifiadurol.

"Dydd Sadwrn yma am 10 y bore bydd Bore Coffi i godi arian at yr Ambiwlans Awyr yn neuadd bentref Llanunlle. Bydd sêr byd Cyw yno i groesawu'r plant iau, bydd gweithgareddau dawnsio stryd a graffiti i'r plant hŷn. Bydd cyfle i fwynhau perfformiad a gweithdy gyda'r bît-focsiwr Ed Holden a bydd Mererid Hopwood yn darllen cerddi o'i chyfrol 'Nes Draw'. Bydd Ocsiwn Addewidion yn dechrau am 11:30 a bydd digon o goffi, te a chacennau i bawb. Dewch yn llu!"